
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 220A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins a Jackie Joyce o dan gyfarwyddyd Alan Morris. Fe'i cefnogwyd gan waith PricewaterhouseCoopers.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Yn 2012-13 gwnaeth y Cyngor gynnydd cyson wrth wella'r rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth, ond roedd rhai heriau allweddol yn parhau 9

Roedd gwaith gwerthuso ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn well yn 2012-13, ond mae angen cryfhau trefniadau sylfaenol 23

Mae'r Cyngor yn cyfrannu at amrywiaeth o fentrau cydweithredol ac, yn hanesyddol, mae ei gynllunio ariannol wedi bod yn gadarn. Fodd bynnag, yn 2013-14 methodd â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur 28

Yn ystod 2013-14 daeth i'r amlwg bod cyfuniad o wendidau wedi arwain yn anochel at fethiannau llywodraethu yn y Cyngor ac er ei fod yn gwneud cynnydd calonogol i wella ei drefniadau llywodraethu, mae'n rhy fuan i gasglu a yw'r gwelliannau hyn yn gynaliadwy 32

O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd ei drefniadau llywodraethu gwell, ni all yr Archwilydd Cyffredinol ddod i gasgliad eto ynglŷn â'r tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15 34

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 35

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 36

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 38

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 42

# Adroddiad cryno ac argymhellion

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru; ac mae hefyd yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, a'i waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14. Gan ystyried y rhain, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran pa un a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Daeth y tîm archwilio i'r casgliad, yn 2012-13, bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson wrth ddarparu gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth ond bod rhai heriau allweddol yn parhau. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y rhesymau canlynol:

- Roedd llywodraethu'n parhau i fod yn bryder allweddol o ganlyniad i ansefydlogrwydd yn nhrefniadau rheoli corfforaethol y Cyngor.
- Yn 2012-13 roedd gweithgareddau'r Cyngor wedi helpu i wella cyfleoedd cyflogaeth a phroffil iechyd yr ardal, ond maent yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor.
- Roedd perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn dda yn ystod 2012-13 ac roedd rhai gwersi wedi'u dysgu yn sgil ystyried integreiddio â  Blaenau Gwent.
- Bu llwyddiant y Cyngor yn gymysg o ran gwella lefelau sgiliau plant a phobl ifanc.
- Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili yn perfformio'n dda, ac roedd dull gweithredu mwy cydgysylltiedig i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant bellach ar waith, ond nid oedd ei effaith yn amlwg eto ym mhob ystod oedran.
- Gwellodd y Cyngor ei berfformiad ym maes rheoli budd-daliadau tai, a llwyddodd i wneud arbedion yn gynt na'r disgwyl a chynnal ei berfformiad er gwaethaf defnyddio llai o adnoddau.
- Mae'r Cyngor wedi cofnodi sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ar y system gyflogres, ond mae angen gwella'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ar ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

3 Nodwyd hefyd bod gwaith y Cyngor wrth werthuso ac adrodd ar berfformiad yn 2012-13 wedi gwella, ond bod angen cryfhau'r trefniadau sylfaenol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- yn 2012-13, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar welliannau o dan y Mesur, ond roedd potensial o hyd i gryfhau ei drefniadau ymhellach;

- roedd y Cyngor yn cydnabod bod gwendidau'n parhau yn ei drefniadau rheoli perfformiad;
- roedd effeithiolrwydd craffu yn anghyson;
- roedd gan y Cyngor drefniadau dilysu data a oedd yn parhau i wella, ond roedd angen eu gweithredu a'u sefydlu mewn ffordd gyson ledled y sefydliad; ac
- roedd y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol, ond roedd diffygion o safbwynt ei ddefnydd o adnoddau.

4 Mae'r Cyngor yn cyfrannu at amrywiaeth o fentrau cydweithredol ac, yn hanesyddol, mae ei gynllunio ariannol wedi bod yn gadarn. Fodd bynnag, yn 2013-14 methodd â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Methodd y Cyngor â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur ar gyfer 2013-14 gan na chyhoeddodd ei amcanion gwella yn amserol, a dylai sicrhau ei fod yn gwella ei gydymffurfiaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r Cyngor yn cyfrannu at nifer fawr o fentrau cydweithredol o gymharu â'r cynghorau eraill a arolygwyd gennym ac, yn gyffredinol, gwelsom fod lle i wella rhai trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli prosiectau, a bod y diffyg gwybodaeth am gostau a manteision yn ei gwneud yn anodd asesu gwerth am arian.
- Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gweithredu mewn ffordd ragweithiol i nodi ei ofynion o ran arbedion, ond mae'n rhaid iddo adolygu strategaeth ei gyllideb yn awr er mwyn gwneud yr arbedion sylweddol sydd eu hangen dros y ddwy neu dair blynedd nesaf.
- Mae trefniadau ar waith bellach i adrodd ar gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, a'u monitro.

5 Yn olaf, ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar yr arolygiad llywodraethu corfforaethol arbennig a gwblhawyd ar y Cyngor. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod cyfuniad o nifer o wendidau wedi arwain yn anochel at fethiannau llywodraethu yn y Cyngor ac er ei fod yn gwneud cynnydd calonogol wella ei drefniadau llywodraethu, mae'n rhy fuan i gasglu a yw'r gwelliannau hyn yn gynaliadwy. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Arweiniodd cyflymdra newid a chyfuniad o nifer o wendidau yn anochel at fethiannau llywodraethu.
- Mae'r Cyngor bellach yn gwella ei drefniadau llywodraethu.
- Mae'n ansicr a ellir cynnal y trefniadau llywodraethu gwell yn ystod cyfnod o newid pellach.

6 O ystyried yr uchod a'r ansicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd ei drefniadau llywodraethu gwell, ni all yr Archwilydd Cyffredinol eto ddod i gasgliad ynglŷn â'r tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15.

## Argymhellion

Cyhoeddwyd yr argymhellion statudol canlynol i'r Cyngor yn ystod 2012-13.

| *Adroddiad er Budd y Cyhoedd ar Lwfans Defnyddwyr Ceir Hanfodol a Lwfans Gwyliau Blynyddol Prif Swyddogion* – Rhagfyr 2013 | |
|---|---|
| A1 | Cofnodion o benderfyniadau<br>• Dylai cofnodion clir o'r holl benderfyniadau gael eu cadw, gan nodi'r penderfyniad a wnaed, pwy a wnaeth y penderfyniad a phryd y cafodd y penderfyniad ei wneud. At hynny, wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, dylid rhoi ystyriaeth briodol i b'un a ddylai'r penderfyniadau hyn gael eu cofnodi yng nghofnod penderfyniadau'r Cyngor. Dylai'r ystyriaeth hon gael ei dogfennu. |
| A2 | Gweithredu penderfyniadau<br>• Ni ddylai swyddogion weithredu penderfyniadau oni bai eu bod yn gwybod pwy sydd wedi gwneud y penderfyniad. Dylai swyddogion gadw tystiolaeth o'r ystyriaeth hon. |
| A3 | Cyngor swyddog statudol<br>• Wrth wneud penderfyniadau, dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried a oes angen ceisio barn ffurfiol y Swyddog A151 neu'r Swyddog Monitro ac a yw'r farn hon wedi'i rhoi. Pan fo angen barn ffurfiol, dylai proses fod ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar y swyddog statudol er mwyn iddo gymryd y farn honno. Dylai swyddogion hefyd gofnodi sut y cafodd y cyngor hwn ei ddilyn. |
| A4 | Adroddiadau<br>• Dylai adroddiadau a lunnir i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ddilyn fformat safonol, gan nodi'n benodol awdur yr adroddiad a phwy yr ymgynghorwyd ag ef. Dylai adroddiadau gynnwys rhestr gynhwysfawr o'r opsiynau sydd ar gael. |

| *Arolygiad Arbennig* – Ionawr 2014 | |
|---|---|
| A1 | Egluro'n benodol mewn fformat hawdd ei ddeall beth yw swyddogaethau llywodraethu a gwneud penderfyniadau: y Cabinet; y Prif Weithredwr; y Tîm Rheoli Corfforaethol; y cyfarwyddwyr corfforaethol; y pwyllgorau craffu; a'r Pwyllgor Archwilio. |
| A2 | Sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o bob penderfyniad a wneir, a gan bwy, er mwyn darparu sicrwydd pellach fod y broses gwneud penderfyniadau yn cael ei chyflawni'n briodol ac yn dryloyw. |
| A3 | Parhau i gyflawni cynllun gweithredu'r Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu er mwyn gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y dyfodol. |
| A4 | Cryfhau ei brosesau rheoli risg ymhellach er mwyn sefydlu gwaith rheoli risg ar draws y Cyngor. Yn benodol, dylid:<br>• sicrhau bod y gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hadolygu'n fwy aml gan y Tîm Rheoli Corfforaethol;<br>• cynllunio camau gweithredu penodol ar gyfer y risgiau allweddol a nodwyd;<br>• mwy o drosolwg ar y modd y cedwir cofrestri risgiau cyfarwyddiaethau, a mwy o gysondeb yn y trefniadau hynny;<br>• egluro rôl a chylch gwaith y Grŵp Rheoli Risg; a<br>• gwella hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio. |
| A5 | Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau o dan y gweithdrefnau chwythu'r chwiban a sicrhau bod y polisi newydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar. |
| A6 | Ailasesu ei ddisgwyliadau o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a gosod rhaglen ar waith er mwyn i'w wasanaeth Archwilio Mewnol fynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolygiad hwn. |
| A7 | Sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella'r swyddogaeth Adnoddau Dynol a chynllunio'r gweithlu yn cael eu cyflawni. |
| A8 | Pwysleisio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau caffael priodol a sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u pennu ar gyfer y swyddogaeth gaffael. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran pa un a yw o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:


- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Yn 2012-13 gwnaeth y Cyngor gynnydd cyson wrth wella'r rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth, ond roedd rhai heriau allweddol yn parhau

11 Cyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13 ym mis Hydref 2013. Roedd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad y Cyngor fesul cyfarwyddiaeth ac o safbwynt cynnydd o ran cyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13. Roedd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus. Mae Ffigur 1 yn dangos bod 24 (54.6 y cant) o'r 44 dangosydd yr adroddwyd arnynt wedi gwella, bod 10 (22.7 y cant) wedi gwaethygu, nid oedd dau (4.5 y cant) wedi newid ac nid oedd modd cymharu wyth (18.2 y cant) â pherfformiad mewn blynyddoedd blaenorol.

Ffigur 1 – dadansoddiad y Cyngor o'i ddangosyddion perfformiad strategol cenedlaethol a'i fesurau atebolrwydd cyhoeddus




12 Yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi 2013, nodwyd bod perfformiad y Cyngor wrth wella gwasanaethau yn 2011-12 wedi bod yn gymysg. Nodwyd bod canran y dangosyddion strategol cenedlaethol a oedd wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol wedi disgyn yn sylweddol o 77 y cant yn 2010-11 i 58 y cant yn 2011-12. Roedd yn dda nodi, felly, bod cyfran y dangosyddion strategol cenedlaethol a oedd wedi gwella wedi cynyddu ychydig o 58 y cant yn 2011-12 i 60 y cant yn 2012-13. Hefyd, roedd y Cyngor wedi bodloni 70 y cant o'i dargedau ar gyfer 2012-13, o'i gymharu â 61 y cant y llynedd.

13 Yn 2012-13, nododd y Cyngor wyth amcan gwella (gweler Atodiad 4) a oedd yn gysylltiedig â'i bedair thema drosfwaol a gyhoeddwyd yn 2009:

- Adeiladu Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adeiladu Economi sy'n Ffynnu
- Adeiladu Gwell Ffyrdd o Fyw
- Newid Bywydau, Creu Dyfodol

Ffigur 2 – Dadansoddiad o ddangosyddion perfformiad strategol cenedlaethol ar gyfer 2011-12 a 2012-13



14 Eleni, roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar ddau o amcanion gwella'r Cyngor:

- cynnal yr amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer preswylwyr (amcan gwella 3); a
- hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach ac egnïol (amcan gwella 5).

15 Yn yr adran isod rydym yn cynnwys dadansoddiad cryno o ba mor llwyddiannus oedd perfformiad y Cyngor wrth sicrhau gwelliant yn erbyn y ddau amcan gwella hwn.

## Yn 2012-13 roedd gweithgareddau'r Cyngor wedi helpu i wella cyfleoedd cyflogaeth a phroffil iechyd yr ardal, ond maent yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor

**Yn 2012-13 roedd gweithgareddau'r Cyngor i wella cyfleoedd cyflogaeth yn dechrau cael effaith ar leihau lefelau diweithdra yn yr ardal, er bod y lefelau'n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU**

16 Mae'r Cyngor wedi bod ag amcan gwella i gynnal a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer trigolion ers pedair blynedd. Yn 2012-13, roedd gweithgareddau'r Cyngor yn canolbwyntio ar hyrwyddo cyfleoedd ariannu lleol, darparu cyngor i fusnesau lleol a busnesau newydd a denu pobl i ymuno â rhaglen cymorth cyflogaeth.

17 Yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13, nododd y Cyngor fod cynnydd wrth gyflawni'r amcan gwella hwn wedi bod yn llwyddiannus. Roedd dros 6,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn rhaglenni amrywiol, fel Genesis 2, Pontydd i Waith a'r prosiect Sgiliau Gwaith i Oedolion, sy'n ceisio gwella cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

18 Cafodd rhwydwaith busnes digidol y Cyngor, Prosiect Go2 My Town, ei ymestyn i bum tref arall, gan ddatblygu'r gwaith a wnaed yn Rhymni a Bargoed. Drwy gyllid grant a chymorth busnes, helpodd y Cyngor i greu 139 o swyddi newydd a diogelu 1,130 o swyddi yn yr ardal.

19 Cymerodd dros 130 o bobl ychwanegol ran yng nghynllun prentisiaeth y Cyngor yn 2012-13. Cafodd y cynllun ei ddatblygu fel rhan o raglen Basbort y Cyngor, a diolch i gymorth cyllid Ewropeaidd, mae'n gobeithio y bydd dros 200 o bobl yn cymryd rhan yn y rhaglen bob blwyddyn. Roedd cynnydd hyd yn hyn ar y rhaglen Basbort newydd wedi derbyn llawer o sylw ledled Cymru gan Lywodraeth Cymru a chynghorau eraill sy'n awyddus i ddysgu gan y rhaglen.

20 O'r 15 mesur a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i nodi llwyddiant ei berfformiad yn erbyn yr amcan gwella hwn, roedd perfformiad naw mesur wedi gwella, perfformiad pedwar wedi dirywio ac roedd un wedi aros yn ei unfan o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nid oedd modd cymharu un mesur gan nad oedd data ar gael ar ei gyfer y llynedd.

21 Ar gyfer 2012-13, dylid nodi i ni roi barn amodol ar y dangosydd lleol ‘nifer y cyfranogwyr yng nghynllun prentisiaeth y Cyngor’ gan nad oedd y cyfrifiad yn bodloni’r diffiniad perthnasol yn llawn ac nad oedd modd ail-gyfrifo’r dangosydd adeg yr archwiliad. Mae’r Cyngor eisoes wedi datblygu set newydd o ddangosyddion ar gyfer 2013-14 ar gyfer ei gynllun prentisiaeth Pasbort newydd, gyda set newydd o ddiffiniadau. Mae’r rhain wedi disodli dangosydd 2012-13 a dylent fynd i’r afael â’r mater cymhwyso wrth symud ymlaen.

22 Llwyddodd y Cyngor i gyrraedd 11 o’r 15 targed a osododd iddo ei hun. Fodd bynnag, rhaid nodi bod rhai o’r targedau yn is na’r perfformiad a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Yn y rhan fwyaf o feysydd, roedd yr esboniad am y targedau’n ymddangos yn rhesymol, ac i ryw raddau roedd y targedau wedi’u llywio gan ofynion ariannu Ewropeaidd. Wrth osod targedau, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gyflwr yr economi leol, faint o gyllid oedd ar gael a’r hinsawdd economaidd gyffredinol.

23 Roedd y meysydd lle cafwyd dirywiad mewn perfformiad yn cynnwys: llai o bobl na’r disgwyl yn cymryd rhan yn y prosiect Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle gan fod un cwmni wedi tynnu yn ôl o’r prosiect ac nid oedd unrhyw fusnesau newydd cymwys wedi holi’r Cyngor am y cynllun grant. Roedd trefnu bod Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) yn gweithio gyda’r Cyngor yn parhau i fod yn her hefyd. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn gweithio tuag at gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer ei dai cyngor, ac yn manteisio’n llawn ar y cyfle sy’n deillio o hyn i greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd yn yr ardal.

24 Er bod y Cyngor yn credu bod ei berfformiad yn llwyddiannus wrth gyflawni’r amcan gwella hwn, roedd yn briodol bod ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol wedi tanlinellu’r lefelau diweithdra uchel yn yr ardal.

25 Roedd perfformiad yn erbyn y data cymharol cenedlaethol sydd ar gael gan Wasanaeth Gwybodaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod gweithgareddau’r Cyngor wedi dechrau cael effaith, ond bod perfformiad o gymharu â chynghorau eraill Cymru yn bryder o hyd:

- Cafwyd gostyngiad yng nghanran y bobl sy’n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn yr ardal o 5.2 y cant ym mis Medi 2012 i 4.5 y cant ym mis Medi 2013. Cafwyd gostyngiad tebyg yng nghyfartaledd Cymru o 4.1 y cant i 3.5 y cant, a chafwyd gostyngiad yng nghyfartaledd y DU o 3.7 y cant i 3.2 y cant yn ystod yr un cyfnod. Dangosodd y ffigur ar gyfer mis Rhagfyr 2013 fod nifer yr hawlwyr wedi parhau i ostwng nes cyrraedd 4.3 y cant yng Nghaerffili, er bod y ganran yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru (3.3 y cant) a chyfartaledd y DU (2.9 y cant).
- Gostyngodd lefel diweithdra yng Nghaerffili o 9.8 y cant ym mis Medi 2012 i naw y cant ym mis Medi 2013, y lefel isaf ers mis Mawrth 2009. Fodd bynnag, roedd cyfradd diweithdra Caerffili yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru (8.1 y cant) a chyfartaledd y DU (7.7 y cant).

- Ar y llaw arall, cynyddodd canran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) o 4.5 y cant yn 2011-12 i 5.9 y cant yn 2012-13, a oedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (4.2 y cant). Mae'r cynnydd hwn yn dilyn gostyngiad o 1.5 y cant rhwng 2010-11 a 2011-12. Roedd y Cyngor yn un o bedwar o'r 22 cyngor yng Nghymru a welodd ostyngiad yn ei berfformiad yn y maes hwn. Mae Paragraff 53 isod yn nodi sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â NEETs.
- Yn 2013, roedd enillion wythnosol yng Nghaerffili yn £534 ar gyfartaledd. Roedd y ffigur hwn yn ddegfed yn y rhestr o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn 2003, 2008 a 2013 roedd enillion yng Nghaerffili yn is na chyfartaledd Cymru, er bod y bwlch wedi lleihau.

26 Fel mesur o lwyddiant, mae *Mynegai Cystadleurwydd y DU*[1] yn fesurydd arall sy'n dangos pa mor dda mae cynghorau, rhanbarthau a gwledydd yn y DU yn perfformio wrth ddenu buddsoddiad sector preifat newydd, yn ogystal â chynorthwyo busnesau cyfredol i ffynnu. Yn 2013, roedd Caerffili yn safle 378 o blith 379 lleoliad yn y DU, gan ostwng un safle ers 2010. Mewn cymhariaeth, Cymru oedd rhanbarth lleiaf cystadleuol y DU.

**Yn 2012-13, roedd proffil iechyd yr ardal yn achos pryder o hyd, ond roedd camau gweithredu'r Cyngor yn helpu i wella'r sefyllfa**

27 Un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor oedd helpu i wella proffil iechyd gwael y fwrdeistref, drwy hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach ac egnïol. Yn 2012-13, roedd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar wneud yr ardal yn atyniadol a hygyrch er mwyn annog pobl i fod yn fwy egnïol, gan weithio gydag ysgolion i wella iechyd a lefelau gweithgarwch plant a datblygu mentrau amrywiol i annog oedolion i fod yn fwy egnïol.

28 Wrth adeiladu ar y cynnydd a wnaeth yn 2011-12 tuag at gyflawni ei gamau gweithredu allweddol, roedd y Cyngor yn credu bod ei berfformiad yn erbyn yr amcan gwella hwn yn llwyddiannus. Roedd yn parhau i wneud cynnydd rhesymol wrth gyflawni'r camau gweithredu a nododd yn ei Amcanion Gwella 2012-13, gan sicrhau bod pob un wedi'i gwblhau neu ar waith.

29 Cafwyd cynnydd yn y meysydd canlynol yn arbennig: cyflwyno rhaglenni amlsgiliau ym mhob ysgol i hyrwyddo 'sgiliau am oes'; gweithgareddau ledled y fwrdeistref i hyrwyddo ffordd o fyw iach; a gosod arwynebau chwaraeon gwell yng Nghanolfan Hamdden Sant Cennydd a Thredegar Newydd. Roedd Canolfan Perfformio Ystrad Mynach i fod i agor ym mis Chwefror 2014 hefyd ac roedd y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cytundebau partneriaeth gydag Undeb Rygbi Cymru a Dreigiau Gwent.

1 Cyflwynwyd a chyhoeddwyd *Mynegai Cystadleurwydd y DU* am y tro cyntaf yn 2000 gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae'n cynrychioli proses o feincnodi cystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd y DU. Mae Mynegai Cystadleurwydd y DU wedi'i lunio fel mesur integredig o gystadleurwydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad a chynaliadwyedd busnesau a lles economaidd unigolion.

30 O'r 24 mesur a ddefnyddiodd y Cyngor i asesu ei welliant yn y maes hwn, roedd 17 (71 y cant) wedi gwella, roedd perfformiad un (pedwar y cant) yn parhau i fod yn 100 y cant, roedd pump (21 y cant) wedi dirywio ac un (pedwar y cant) wedi aros yn ddigyfnewid.

31 Er enghraifft, cynyddodd nifer yr ymwelwyr â chanolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon dan do'r Cyngor o 1,148,638 yn 2011-12 i 1,277,952 yn 2012-13. Yn yr un modd, cynyddodd nifer y plant 16 oed ac iau a fu'n mynychu sesiynau nofio am ddim o 25,584 yn 2011-12 i 27,415 yn 2012-13.

32 Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl a fynychodd y cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff o 1,166 yn 2011-12 i 982 yn 2012-13, ac roedd y ffigur hwn yn is na tharged y Cyngor o 1,080. Yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol, eglurodd y Cyngor fod y gostyngiad hwn i'w briodoli i'r nifer cynyddol o bobl a atgyfeiriwyd i'r cynllun gyda phroblemau iechyd cymhleth a oedd angen amser ychwanegol gan hyfforddwyr.

33 Er gwaethaf ymdrechion y Cyngor, nodwyd gennym yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* ym mis Medi 2013 fod nifer y plant a oedd yn derbyn prydau ysgol mewn ysgolion cynradd wedi cyrraedd ei lefel isaf ers tair blynedd. Er na lwyddodd y ffigur i gyrraedd targed y Cyngor eto eleni, cynyddodd o 36 y cant yn 2011-12 i ychydig o dan 40 y cant yn 2012-13. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw at ddeddfwriaeth Blas am Oes ac mae'n parhau i hyrwyddo manteision iechyd prydau ysgol i rieni a disgyblion.

34 Fodd bynnag, dangosodd yr ystadegau dilynol ar gyfer canlyniadau cenedlaethol allweddol yn 2012-13 fod proffil iechyd yr ardal yn parhau'n destun pryder. Er enghraifft:

- Mae disgwyliad oes oedolion wedi bod yn gwella'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod disgwyliad oes dynion yn debyg i gyfartaledd Cymru, roedd disgwyliad oes menywod yn is na chyfartaledd Cymru.
- Roedd canran yr oedolion gordew yn 2012-13 yn parhau i fod yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru.

35 Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac un o'i amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yw gwella ymwybyddiaeth, mynediad, ac amrywiaeth a defnydd o gyfleusterau hamdden a chwaraeon.

## Roedd perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn dda yn ystod 2012-13 ac roedd rhai gwersi wedi'u dysgu yn sgil ystyried integreiddio â Blaenau Gwent

36 Nododd *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd fod y Cyngor wedi penderfynu peidio ag integreiddio ei wasanaethau cymdeithasol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Roeddem hefyd wedi mynegi pryder nad oedd cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor wedi ystyried effaith bosibl integreiddio, ac nad oedd ganddo achos busnes wedi'i gostio'n llawn ar gyfer y broses integreiddio. Dangosodd ein harolygiad llywodraethu corfforaethol diweddar nad aeth y cyngor ati mewn ffordd amserol i ymgynghori'n ffurfiol â'r Swyddog

Adran 151 mewn perthynas â'r cynnig i integreiddio Gwasanaethau Cymdeithasol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

37 Dywedodd y Cyngor y byddai'n ystyried agweddau ar integreiddio â Blaenau Gwent fesul achos lle'r oedd achos busnes yn cefnogi hynny. Ategwyd cymeradwyaeth derfynol Cabinet y Cyngor ym mis Gorffennaf 2013 ar gyfer gweithlu ar y cyd â Blaenau Gwent gan achos busnes, ond roedd y gwasanaeth eisoes wedi'i integreiddio i bob pwrpas erbyn hynny.

38 Cyhoeddodd AGGCC *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012-13* ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerffili ym mis Hydref 2013. Roedd yr adroddiad yn asesiad cadarnhaol o berfformiad y Cyngor o safbwynt gwasanaethau oedolion a phlant. Amlygodd yr adroddiad lawer o agweddau da ar ddarparu gwasanaethau a meysydd cynnydd. Mae hefyd yn amlinellu rhai o'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor ac yn nodi meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan AGGCC: http://cssiw.org.uk.

39 Mae'r paragraffau canlynol yn dod o'r adroddiad:

- 'Roedd pwyslais y llynedd ar integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol gydag adran gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn yn y pen draw. Mae'r ddwy ochr wedi cynnal ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth mewn meysydd gwasanaeth penodol.
- Er i'r penderfyniad gael ei wneud i beidio â bwrw ymlaen â'r integreiddio, cyfrannodd cyfarwyddwyr y ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol at adolygiad o weithio ar y cyd. Arweiniodd hyn at gyhoeddi'r gwersi allweddol a ddysgwyd ac awgrymiadau cadarnhaol a chyngor i asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth.
- Mae gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid wedi bod yn uchel ar agenda'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae hyn wedi cynnwys arwain nifer o drefniadau cydweithio rhanbarthol.
- Cafwyd heriau tuag at ddiwedd y flwyddyn wrth i swyddi ddod ar gael ar lefel corfforaethol ac uwch reoli. Bydd hyn yn achosi heriau yn 2013/14 gan y bydd angen sefydlu uwch dîm rheoli newydd.'
- 'Mae'r cyngor wedi parhau i adolygu a datblygu gwasanaethau gyda phartneriaid. Ceir ymrwymiad cryf i weithio gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eraill a'r adran iechyd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu cysylltiadau cyfredol, fel y model Eiddilwch Gwent a chynnal gwasanaethau lleoli oedolion er enghraifft, yn ogystal â chymryd rhan mewn trefniadau newydd – bwrdd diogelu oedolion Gwent gyfan.
- Adolygwyd y ddarpariaeth fewnol a sefydlwyd prosiectau a strategaethau newydd i wella gwasanaethau i bobl.'
- 'Mae'r gwasanaethau i blant wedi parhau i berfformio'n dda. Dilynwyd y trefniadau rhannu cyfarwyddwr cynorthwyol cychwynnol yn ystod y rhaglen integreiddio gan reoli ar y cyd am weddill y flwyddyn. Ni ddangosodd hyn effaith

amlwg ar blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gwasanaethau.

- Parhaodd y cyngor i adolygu gwasanaethau gan gynnwys darpariaeth breswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau seibiant i blant ag anableddau, yn ogystal â chymryd rhan mewn cydweithredu rhanbarthol ar gyfer diogelu.
- Er i berfformiad gael ei gynnal, bydd penodi cyfarwyddwr cynorthwyol newydd i'r gwasanaethau i blant yn 2013/14 yn cynnig cyfle i barhau'r datblygiad cadarnhaol.'

40 Nododd AGGCC bedwar maes o arfer da:

- ymrwymiad parhaus i archwilio meysydd ar gyfer cydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid, fel y tîm adnoddau cymunedol o fewn y model Eiddilwch Gwent ehangach, er enghraifft;
- adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau mewnol yn arwain at newid cadarnhaol, datblygiad gwelyau ail-alluogi, archwilio strategaethau newydd ar gyfer gofalu am bobl â dementia, datblygu uned breswyl newydd i blant ac ailstrwythuro'r gwasanaeth seibiant i blant;
- rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect ar y cyd â Blaenau Gwent; a
- datblygu dulliau yn seiliedig ar ganlyniadau wrth gynllunio ac adolygu gofal asesu.

41 Roedd AGGCC wedi nodi'r risgiau canlynol posibl hefyd:

- effaith trefniadau rheoli dros dro hirdymor ar yr adran;
- effeithiau posibl ansefydlogrwydd corfforaethol; a
- chynnal y lefelau uchel cyfredol o wasanaeth mewn amgylchedd ariannol anodd.

42 Ym mis Rhagfyr 2012, cynhaliodd AGGCC adolygiad cenedlaethol o swyddogaeth statudol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Cadarnhaodd yr adolygiad fod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddealltwriaeth glir o atebolrwydd y cyfarwyddwr, ynghyd â strwythurau a threfniadau llywodraethu a chymorth cadarn i alluogi'r cyfarwyddwr i gyflawni ei waith.

43 Roedd cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol parhaol wedi'i benodi ac roedd y Cyngor wrthi'n penodi Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion. Dylai hyn roi sefydlogrwydd i'r gwasanaeth.

44 Roedd y Cyngor wedi cadw o fewn ei gyllideb ar Wasanaethau Cymdeithasol, ond roedd yn ymwybodol o'r heriau wrth symud ymlaen. Roedd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2012-13 ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor 2012-13 yn pwysleisio'r pwysau cynyddol ar y Gwasanaeth yn sgil y cynnydd yn y galw a'r angen i wneud arbedion ariannol heb eu tebyg yn 2014-15 ac ar ôl hynny. Bydd ad-drefnu a gweddnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu yn hanfodol i ymdopi â'r pwysau hwn.

45 Fel rhan o’n rhaglen reoleiddio 2013-14, byddwn yn cynnal adolygiad i asesu cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Gwent. Cynhelir yr adolygiad hwn ar y cyd ag AGGCC.

## Bu llwyddiant y Cyngor yn gymysg o ran gwella lefelau sgiliau plant a phobl ifanc

46 Roedd gwella lefelau sgiliau plant a phobl ifanc yn un o amcanion gwella 2012-13 y Cyngor. Yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13, nododd y Cyngor ei fod wedi bod yn rhannol lwyddiannus yn cyflawni’r amcan gwella hwn. Mae wedi cwblhau’r holl gamau gweithredu a nodwyd yn ei ddogfen Amcanion Gwella 2012-13, gan gynnwys: darparu anogwyr dysgu ledled ei ddarparwyr dysgu; darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon yng nghyfnodau allweddol 2 a 3; a sefydlu rhaglen gymorth i leihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol.

47 O’r 20 o fesuryddion perfformiad y mae’r Cyngor yn eu defnyddio i benderfynu pa mor dda y mae’n perfformio yn y maes hwn, roedd 12 (60 y cant) wedi gwella, saith (35 y cant) wedi dirywio ac un (pump y cant) wedi aros yn ddigyfnewid. Mae data’r Cyngor yn dangos bod perfformiad wedi gwella yn y rhan fwyaf o ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol, gan gynnwys:

- cynyddodd canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 4+ yn eu hasesiadau mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 o 84.6 y cant yn 2011-12 i 86.8 y cant yn 2012-13; a
- chynyddodd canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 5+ yn yr Asesiadau Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 o 70.9 y cant yn 2011-12 i 76.8 y cant yn 2012-13.

48 Fodd bynnag, cynyddodd y bwlch rhwng canran y bechgyn a merched sy’n cyflawni’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Yn yr un modd, roedd canran y disgyblion 17 oed a gymerodd gyrsiau sy’n arwain at gymwysterau cyfwerth â dwy Safon Uwch wedi disgyn o 99 y cant yn 2011-12 i 96 y cant yn 2012-13.

49 Cyflawnodd y Cyngor 11 o’r 20 targed a osododd iddo ei hun yn 2012-13 ar gyfer yr amcan gwella hwn.

50 Cynhaliodd Estyn arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Gorffennaf 2012. Mae arolygwyr yn dod i gasgliad cyffredinol ynglŷn â pherfformiad cyfredol a’r gallu i wella. Defnyddir graddfa pedwar pwynt i werthuso gwasanaethau: rhagorol, da, boddhaol ac anfoddhaol. Daeth Estyn i’r casgliad bod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn foddhaol, a bod gan y Cyngor ragolygon boddhaol ar gyfer gwelliant. Mae’r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu ar ôl arolygiad i ymateb i argymhellion Estyn. Mae’r cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro gan y Cabinet a’r Pwyllgor Craffu ar Addysg Gydol Oes. Nododd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg i’r Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd 2013 fod y rhan fwyaf o gamau’r cynllun gweithredu ar ôl arolygiad wedi’u rhoi ar waith ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth.

51 Yn ôl llythyr Estyn dyddiedig Mawrth 2014: ‘Aeth yr awdurdod ati’n gyflym i fynd i’r afael â’r argymhellion yn arolygiad 2012. Yn ystod cyfnod o newid sylweddol ymhlith uwch reolwyr, mae’r cyngor wedi dangos ymrwymiad cadarn i wella’u gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc.’ ‘Mae’r awdurdod wedi sefydlu sylfeini gwell i barhau i ysgogi’r gwelliannau mewn cyrhaeddiad a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr. Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn sgil arolygiad Gorffennaf 2012. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.’

## Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili yn perfformio’n dda, ac roedd dull gweithredu mwy cydgysylltiedig i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant bellach ar waith, ond nid oedd ei effaith yn amlwg eto ym mhob ystod oedran

52 Roedd y Cyngor yn ymwybodol iawn o effaith poblogaeth NEETs uchel ar yr economi leol a’i wasanaethau, ac roedd yn amlwg bod hyn wedi dylanwadu ar ei amcanion gwella.

53 Roedd ymdrechion y Cyngor yn canolbwyntio ar bobl ifanc NEET rhwng 14 a 16 oed ac ar adolygu gweithgareddau a gwasanaethau perthnasol. Roedd hyn yn debyg i’r rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru, ond roedd y Cynllun Pasbort yn enghraifft dda o’r Cyngor yn gweld problem gynyddol yn yr ystod oedran 18 i 24 ac yn datblygu rhaglen i fynd i’r afael â hi.

54 Yn y 18 mis blaenorol, mae gwerthuso gweithgareddau yn ymwneud â NEETs wedi bod yn ffocws allweddol gan y Cyngor, diolch yn bennaf i’r Cyfarwyddwr Addysg a oedd wedi nodi bod yna fylchau mewn darpariaeth a’i fod yn pryderu ynglŷn ag effaith diffyg cydweithredu rhai o’r rhaglenni a oedd yn ceisio lleihau nifer y NEETs. Mae newidiadau wedi’u gwneud o ganlyniad i hynny. Er enghraifft: mae anogwyr dysgu ar gael bellach i ddarparu cymorth mwy dwys; mae proses unigol ar gyfer atgyfeirio i ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol wedi’i datblygu; bu newidiadau i’r cwricwlwm 14 i 16; ac mae contractau newydd wedi’u dyfarnu i ddarparwyr.

55 Yn ogystal, bu ymateb cadarnhaol a rhagweithiol i bryderon Estyn ynglŷn â Gwasanaethau Ieuenctid. Mae datblygu Gwasanaeth Ieuenctid effeithiol a hygyrch yn un o amcanion gwella 2013-14 y Cyngor. Mae Pennaeth newydd bellach wedi’i benodi i’r Gwasanaeth Ieuenctid ac mae strategaeth wedi’i drafftio ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno mewn egwyddor â chais i ariannu rhagor o waith gan y Gwasanaeth Ieuenctid mewn ysgolion.

56 Roedd gan y Cyngor amrywiaeth o ddulliau ar waith ar gyfer gweithio gydag ysgolion, colegau ac asiantaethau eraill i geisio atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET. Roedd hyn yn cynnwys ei raglen rhieni newydd a rhieni sy'n disgwyl a'i brosiect dysgu teuluol integredig. Yn ogystal, roedd wedi hen sefydlu dulliau o ymgysylltu â phobl ifanc, ac roedd yn amlwg bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu hystyried.

57 Roedd y broses o broffilio pobl ifanc sy'n agored i niwed bellach ar waith, ac roedd system olrhain newydd ar waith i roi gwybodaeth fanylach i'r Cyngor er mwyn ei helpu i ddeall cyrchfan a dyheadau pobl ifanc y fwrdeistref. Roedd protocol rhannu gwybodaeth yn cael ei ddatblygu gyda Gyrfa Cymru hefyd, ond fel sy'n wir am bob cyngor, roedd yn parhau i fod yn anodd cael gafael ar beth o'r data allweddol.

58 Mae'r Cyngor wedi drafftio ei strategaeth NEETs 2013-15 hefyd sy'n nodi sut mae'n mynd i leihau nifer y bobl ifanc NEET. Fodd bynnag, nid oedd y strategaeth wedi'i chytuno'n ffurfiol eto, ac roedd y trefniadau adrodd a monitro yn parhau i gael eu datblygu.

59 Fel y nodwyd eisoes ym mharagraff 25 uchod, cynyddodd canran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o 4.5 y cant yn 2011-12 i 5.9 y cant yn 2012-13. Roedd y Cyngor wedi priodoli'r cynnydd yn rhannol i ddulliau adrodd gwell, ond roedd yn dal i bryderu am y ffigurau ac yn parhau i gryfhau ei drefniadau i fynd i'r afael â nifer y NEETs. Yn fwy cadarnhaol, lleihaodd cyfran y bobl ifanc NEET sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13 o 7.1 y cant yn 2009 i 6.8 y cant yn 2012.

**Roedd Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili yn perfformio'n dda**

60 Ym mis Mehefin 2013, cynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi arolygiad sgrinio ansawdd byr o Gyd-wasanaeth Troseddu Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili, gan ddod i'r casgliad: 'Yn gyffredinol, cawsom fod Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid (YOS) Blaenau Gwent a Caerffili yn perfformio'n dda. Roedd staff yr YOS yn llawn cymhelliant ac yn siarad yn gadarnhaol am y sefydliad a'u cyfraniad at y gwaith. Roedd gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf yn 2010, yn enwedig i'r gwaith diogelu plant ac amddiffyn y cyhoedd. Dylid canolbwyntio ymdrechion pellach yn awr ar sicrhau bod yr holl asesiadau a chynlluniau o ansawdd da. O ystyried ymrwymiad y staff a'r rheolwyr rydym yn rhagweld y gellir ailadrodd y safonau a arsylwyd yn y mwyafrif o achosion ar draws yr holl waith.'

61 Roedd yr agweddau gorau ar waith a welodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ym Mlaenau Gwent a Chaerffili yn cynnwys:

- Y gwelliant sylweddol mewn ymarfer ers yr arolygiad diwethaf. Er bod tîm y rheolwyr wedi hyrwyddo hyn, roedd grŵp y staff wedi mabwysiadu hyn yn llwyr. Roedd y grŵp staff yn ymroddedig i'w gwaith a'u cymuned.
- Ymgysylltu plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Roedd hyn wedyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithio tuag at leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

62 Yn ôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, y maes mwyaf arwyddocaol ar gyfer gwella oedd yr angen am oruchwylio cyson ar lefel rheoli i sicrhau ansawdd yr asesiadau risg o niwed i eraill ac ansawdd y cynlluniau i fynd i'r afael â'r perygl o niwed.

63 Mae adroddiad llawn yr arolygiad ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi: http://www.justice.gov.uk/

## Gwellodd y Cyngor ei berfformiad ym maes rheoli budd-daliadau tai, a llwyddodd i wneud arbedion yn gynt na'r disgwyl a chynnal ei berfformiad er gwaethaf defnyddio llai o adnoddau

**Yn y gwasanaethau a adolygwyd gennym, llwyddodd y Cyngor i wneud arbedion yn gynt na'r disgwyl a chynnal ei berfformiad er gwaethaf defnyddio llai o adnoddau, ond nid oedd yr arbedion yn cael eu monitro na'u gwerthuso yn benodol**

64 Yn ystod 2012-13, aethom ati i gynnal adolygiad ledled cynghorau Gwent i asesu pa mor dda y maent yn ymdopi â llai o adnoddau. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar dri maes gwasanaeth – Iechyd yr Amgylchedd, Tai, a Rheoli Gwastraff – er mwyn deall i ba raddau y mae'r gwasanaethau unigol hyn yn llwyddo i gynllunio a gwneud arbedion.

65 Yn gyffredinol, gwelsom fod cynghorau yng Ngwent yn wynebu heriau sylweddol wrth barhau i ddarparu a gwella gwasanaethau hanfodol mewn amgylchedd sy'n newid sydd â llai o adnoddau a staff.

66 O safbwynt Caerffili, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod arbedion wedi'u gwneud ymlaen llaw a bod gwaith y Cyngor o fonitro'r gyllideb o ddydd i ddydd yn gadarn. Fodd bynnag, roedd gwendidau yn y dull o fonitro a gwerthuso rhai arbedion. Daethom i'r casgliad hwn ar ôl canfod y canlynol:

- roedd gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r pwysau ariannol a wynebai, ac roedd systemau da ar waith i asesu ac adolygu gwaith rheoli ariannol a pherfformiad cyllidebau yn rheolaidd;
- roedd wedi hysbysu staff am yr heriau ariannol sy'n wynebu'r cyngor, ac mae staff yn deall pwysau ariannol y dyfodol;
- roedd y Cyngor wedi sefydlu proses ar gyfer nodi a chytuno ar arbedion a pharatoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ond nid oedd ganddo ddull o gysylltu'r rhain yn ffurfiol ac yn ddiamwys â'r gost o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol;
- nid oedd y Cyngor yn monitro nac yn gwerthuso ei arbedion yn benodol; ac
- ar y cyfan, roedd perfformiad Iechyd yr Amgylchedd, Tai a Rheoli Gwastraff y Cyngor yn gwella neu'n cael ei gynnal, er gwaethaf gostyngiadau bach mewn termau real yn y cyllidebau.

**Er gwaethaf lefelau staffio llai, roedd y gwaith o reoli budd-daliadau tai yn gwella'n gyffredinol**

67 Yn sgil cyflwyno Deddf Diwygio Lles 2012, lleihaodd nifer y bobl yng Nghaerffili a oedd yn hawlio Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor yn 2012-13 un y cant o 22,060 ym mis Mai 2012 i 21,890 ym mis Chwefror 2013. Roedd y sefyllfa yn debyg ledled Cymru. Yn sgil y gostyngiad hwn yn y llwyth gwaith, roedd y Cyngor yn gallu lleihau ei lefelau staffio yn ei adran budd-daliadau, gan wneud arbedion o dros £90,000 yn 2012-13.

68 Er gwaethaf y gostyngiad mewn lefelau staffio, roedd perfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol wedi gwella'n gyffredinol:

- Gwellodd cyfartaledd yr amserau prosesu ar gyfer ceisiadau newydd o 25 diwrnod yn 2011-12 i 22 diwrnod yn 2012-13, ond roedd hyn yn dal i fod yn hirach na chyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod yn 2012-13.
- Gwellodd cyfartaledd yr amser a gymerwyd i brosesu hysbysiadau newid amgylchiadau o wyth diwrnod yn 2011-12 i saith diwrnod yn 2012-13, ond eto roedd hyn yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef chwe diwrnod yn 2012-13.
- Gwellodd canran y ceisiadau newydd nad ydynt wedi'u datrys am fwy na 50 diwrnod o dri y cant yn 2011-12 i ddau y cant yn 2012-13. Roedd y perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef pedwar y cant yn 2012-13.
- Gwellodd perfformiad wrth adennill gordaliadau'r flwyddyn flaenorol o 27 y cant yn 2011-12 i 38 y cant yn 2012-13. Roedd y perfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, sef 32 y cant yn 2012-13.
- Lleihaodd cyfanswm y ceisiadau am fudd-dal tai a gafodd eu hadolygu o 371 yn 2011-12 i 260 yn 2012-13. Gwellodd y Cyngor yr amser a gymerwyd i brosesu'r ceisiadau hyn o 24 diwrnod yn 2011-12 i 16 diwrnod yn 2012-13.
- Gwellodd canran y ceisiadau a gafodd eu hailystyried o fewn pedair wythnos o 73 y cant yn 2011-12 i 82 y cant yn 2012-13. Roedd hyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 11 y cant yn 2012-13. Dirywiodd perfformiad ledled Cymru yn sylweddol o 68 y cant yn 2011-12 i 11 y cant yn 2012-13.

69 Fodd bynnag, arhosodd cywirdeb wrth brosesu ceisiadau yn ei unfan a dirywiodd perfformiad yn y dangosyddion canlynol:

- Lleihaodd canran y ceisiadau newydd y penderfynwyd arnynt o fewn 14 diwrnod o 87 y cant yn 2011-12 i 83 y cant yn 2012-13. Roedd hyn yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 88 y cant yn 2012-13. Dirywiodd perfformiad ledled Cymru o 91 y cant yn 2011-12 i 88 y cant yn 2012-13.
- Er i nifer yr apeliadau leihau o wyth yn 2011-12 i chwech yn 2012-13, roedd y Cyngor wedi cymryd mwy o amser ar gyfartaledd i brosesu apeliadau, sef 47

diwrnod yn 2012-13 o gymharu â 36 diwrnod yn 2011-12. Roedd y perfformiad hwn yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 38 diwrnod yn 2012-13.

- Lleihaodd nifer ymchwiliadau twyll y Cyngor yn 2012-13 o 32 fesul llwyth gwaith o 1,000 yn 2011-12 i 25 fesul llwyth gwaith o 1,000 yn 2012-13. Fodd bynnag, gwellodd nifer y cosbau llwyddiannus o bedair fesul 1,000 yn 2011-12 i bump fesul 1,000 yn 2012-13, er bod hyn yn parhau i fod yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef wyth fesul llwyth gwaith o 1,000 yn 2012-13. Dirywiodd perfformiad ledled Cymru o naw fesul llwyth gwaith o 1,000 yn 2011-12 i wyth fesul llwyth gwaith o 1,000 yn 2012-13.

## Mae'r Cyngor wedi cofnodi sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ar y system gyflogres, ond mae angen gwella'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ar ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol

70 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy ddefnyddio'r pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

71 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithredu cynlluniau iaith. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

72 Wrth drafod Cyngor Caerffili, nododd Comisiynydd y Gymraeg fod y Cyngor yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu, a bod y wybodaeth bellach yn cael ei chynnwys yn y system gyflogres. Er gwaethaf hyn, nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran dynodi swyddi y mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol iddynt, a disgwylir y bydd hynny'n flaenoriaeth yn y cyfnod nesaf. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella cynnwys Cymraeg y Cyngor ar ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae tîm cydraddoldebau ac iaith Gymraeg y Cyngor yn cynnig cymorth i adrannau gwasanaethau eraill ar faterion ymarferol yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo hefyd i ddarparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith mewn ymateb i ofynion y Cynllun Iaith a strategaeth *Mwy na Geiriau* y Llywodraeth.

# Roedd gwaith gwerthuso ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn well yn 2012-13, ond mae angen cryfhau trefniadau sylfaenol

## Yn 2012-13, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ond roedd potensial o hyd i gryfhau ei drefniadau ymhellach

73 Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13 cyn 31 Hydref 2013 yn unol â gofynion statudol. Roedd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor, a chopïau caled ar gael yn ei brif adeiladau cyhoeddus. Roedd hi'n amlwg bod perchnogaeth o'r gwasanaethau a chyfranogiad ynddynt wrth ddatblygu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

74 Aeth y Cyngor i'r afael â llawer o'r cynigion ar gyfer gwella ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol a godwyd yn ein llythyr Asesiad Gwella dyddiedig 17 Rhagfyr 2012. Er enghraifft, roedd data cymharol ar gyfer yr holl Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi'u cynnwys, ynghyd â rhagor o wybodaeth ariannol i ddangos sut y gwerir adnoddau ym mhob Cyfarwyddiaeth ac i danlinellu'r pwysau ariannol sydd arno. Hefyd cafwyd mwy o gyfranogiad ym Mhwyllgorau Craffu'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio wrth werthuso llwyddiant y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Gwella, gydol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn i lywio datblygiad yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Yn ogystal, cyflwynodd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ddarlun tecach, mwy cytbwys o berfformiad y Cyngor na'r llynedd.

75 Nodwyd nifer o feysydd gennym lle gallai'r Cyngor wneud gwelliant pellach i'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun er mwyn rhoi darlun cyflawnach o berfformiad a nodi'n fwy cyson pa gamau y mae am eu cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael/ tanberfformiad. Roeddem hefyd yn teimlo y gellid ystyried defnyddio ac adrodd am wybodaeth gymharol mewn modd sydd wedi'i dargedu'n well. Er enghraifft, gallai'r Cyngor ystyried cymharu ei berfformiad â chynghorau neu gyrff tebyg eraill yn hytrach na dim ond defnyddio cyfartaledd Cymru gyfan.

## Roedd y Cyngor yn cydnabod bod gwendidau'n parhau yn ei drefniadau rheoli perfformiad

76 Roedd mecanweithiau rheoli perfformiad y Cyngor wedi'u hen sefydlu ond heb eu hadolygu na'u newid yn sylweddol ers cryn amser. Roedd rheoli perfformiad yn eitem reolaidd mewn cyfarfodydd tîm adrannol ac roedd ystyriaeth o'r 'stori' y tu ôl i'r data yn aeddfedu ond bod y pwyslais wedi bod ar gasglu data yn hytrach na dadansoddi a gwerthuso. Roedd y defnydd o wybodaeth ansoddol a chymharol yn fympwyol ac roedd prinder adroddiadau cynnydd rheolaidd a ffurfiol i'r Cabinet ar Amcanion Gwella'r Cyngor.

77 Wrth i bwysau ariannol ar y Cyngor gynyddu, roedd bellach yn adolygu ei drefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Elfen allweddol o gynllun gweithredu Gwella Llywodraethu'r Cyngor oedd gwella prosesau rheoli perfformiad. Roedd newidiadau ar y gweill, er enghraifft, i'r broses cynllunio gwasanaethau a'r trefniadau craffu. Mae cylch cynllunio ac amserlen gorfforaethol newydd wedi'u datblygu ar gyfer 2014-15. Roedd Panel Safbwynt wedi'i ailsefydlu hefyd, ac roedd yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

78 Yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* yn 2013 a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi 2013, roeddem wedi nodi pryderon ynglŷn ag anghysondebau yn ansawdd y trefniadau hunanwerthuso a oedd ar waith ledled y Cyngor. Dros y pedwar mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i gryfhau ei drefniadau hunanwerthuso gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cynhaliwyd gweithdai gyda phenaethiaid gwasanaethau ac mae amrywiaeth o ddulliau hunanwerthuso wedi'u treialu ledled y sefydliad. Bellach, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cyfres o nodweddion hunanwerthuso craidd yn hytrach na fformat rhagnodedig ac mae'n ystyried sefydlu mecanweithiau her mewnol ar gyfer asesu cadernid yr hunanwerthusiadau.

79 Bwriad y Cyngor yw cynnal ei gylch cyntaf o hunanwerthusiadau yn ystod haf 2014. Defnyddir hyn wedyn i ddarparu dealltwriaeth glir o'r holl faterion allweddol sy'n ymwneud â'i wasanaethau i arweinwyr y Cyngor gan gynnwys angen, gwelliant, risg ac adnoddau. Yna defnyddir yr hunanwerthusiadau hyn i lywio cynllun ariannol a chynlluniau gwasanaeth tymor canol y Cyngor. Byddwn yn monitro datblygiad y trefniadau hyn.

80 Daeth Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol AGGCC 2012-13 i'r casgliad: 'Mae adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn eglur ac yn gytbwys. Mae'n darparu amlinelliad o'r gwasanaethau a ddarparwyd a newidiadau yn ystod y flwyddyn ac mae'n ddidwyll am heriau'r dyfodol. Mae'r cyfarwyddwr dros dro yn cydnabod yn ei adroddiad y bydd angen monitro effaith diwygio lles yn ofalus er mwyn cynnal ac ailgyfeirio gwasanaethau i'r meysydd allweddol o angen. Nodir blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cydnabyddir y bydd angen parhau i adolygu gwasanaethau cyfredol yn ogystal ag archwilio dewisiadau newydd eraill er mwyn parhau gwaith y cyngor o ddatblygu gwasanaethau cadarn ar gyfer y dyfodol.'

81 Parhawyd i ddefnyddio Ffynnon[2] fel y dull allweddol o fonitro ac adrodd ar berfformiad. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n tendro am feddalwedd rheoli perfformiad newydd ar hyn o bryd, felly bydd y contract gyda darparwyr Ffynnon yn dod i ben ym mis Mehefin 2014. Rhoes y Cyngor amser ac adnoddau sylweddol i ddatblygu'r defnydd o Ffynnon ledled y sefydliad. Felly, cymrodd gamau synhwyrol i ail-negodi gyda'r darparwyr er mwyn estyn oes y contract cyn i'r contract Cymru-gyfan ddod i ben.

2 Meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol yw Ffynnon er mwyn bodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdoau'r parciau cenedlaethol a'u partneriaid.

## Roedd effeithiolrwydd craffu yn anghyson

82 Canfu ein harolwg o aelodau a swyddogion a gynhaliwyd fel rhan o'r arolwg llywodraethu corfforaethol arbennig fod ganddynt farm gymysg ynghylch effeithiolrwydd pwyllgorau craffu'r' Cyngor. Teimlai cadeiryddion y pwyllgorau hyn fod rhai meysydd lle gellid gwella'r gwaith craffu. Priodolwyd hyn i amrywiaeth o resymau, megis:

- a yw'r adroddiadau cywir yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau craffu;
- dealltwriaeth a hyder aelodau yn eu rolau; a'r
- farn nad yw'r gwaith craffu chwech misol ar berfformiad y Cyngor yn ddigon cryf ac nad oedd yn rhan integredig o'r broses graffu, a'i fod yn arafu cynnydd tuag at ddull hunanwerthuso.

83 Ymgysylltodd y Cyngor ag astudiaeth graffu'r Archwiliydd Cyffredinol yn 2012-13, a oedd yn cynnwys elfen o hunanwerthuso ac adolygu gan gymheiriaid. Yn dilyn yr astudiaeth, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu i wella prosesau craffu, gan ei ystyried yn rhan annatod o raglen gwella llywodraethu'r Cyngor. Mae llawer o'r camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith. Cyflwynwyd newidiadau gweithdrefnol er mwyn gwahaniaethu'n well rhwng aelodau a swyddogion mewn pwyllgorau, a sefydlwyd Grŵp Arweinyddiaeth Craffu. Roedd llawer o'r newidiadau hyn yn dal yn eu dyddiau cynnar, ac nid oeddent ar waith yn gyson a chadarn ar draws yr holl bwyllgorau. Roedd newidiadau a gwelliannau pellach ar y gweill hefyd i'w gwneud yn ystod 2014.

84 Mae'r Cyngor yn parhau i arsylwi ar gynghorau eraill a dysgu ganddynt ynghylch gweithdrefnau craffu. Wrth i ni arsylwi ar ddau o bwyllgorau craffu'r Cyngor, gwelsom fod aelodau'n cynyddu yn eu hyder a'u parodrwydd i herio, er ei bod yn amlwg bod llawer eto i'w gyflawni er mwyn sicrhau bod perfformiad yn fwy cyson ar draws y pwyllgorau.

85 Adroddodd AGGCC yn ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol ar Berfformiad 2012-13 ei bod 'yn bresennol i arsylwi cyfarfod craffu lle'r oedd presenoldeb da. Roedd yr agenda lawn yn cynnig cyfle i drafod amrywiaeth o faterion a drafodwyd yn fanwl cyn gwneud penderfyniadau. Roedd cynrychiolaeth o ran y staff a'r fforwm ieuenctid lleol yn bresennol, a gwnaed cyflwyniadau ganddynt i'r aelodau a oedd yno.'

86 Hefyd, gwelsom fod y Pwyllgor Archwilio yn dod yn fwy effeithiol yn ei rôl ac yn fwy parod i herio'r adroddiadau a gynhyrchwyd a'r rheolwyr, a oedd i'w weld yn sgil ei ddull gweithredu. Roedd rhag-gyfarfod gydag archwilwyr a'r Swyddog Adran 151 a chadeirydd y pwyllgor wedi helpu i sicrhau dealltwriaeth o bwyntiau allweddol yr adroddiadau a gyflwynwyd. Dylid cael rôl gryfach ar gyfer y pwyllgor o ran sicrhau bod y rhaglen Archwilio mewnol yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor fel ffordd o sicrhau bod y risgiau'n cael eu lliniaru'n ddigonol.

## Roedd gan y Cyngor drefniadau dilysu data a oedd yn parhau i wella, ond roedd angen eu gweithredu a'u sefydlu mewn ffordd gyson ledled y sefydliad

87 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwneud hyd yn oed yn well fyth. Aethom ati i archwilio'r systemau data a oedd yn ategu'r chwe mesur perfformiad a ddefnyddir gan y Cyngor. Roedd un yn Ddangosydd Strategol Cenedlaethol (NSI) a phump yn fesurau perfformiad lleol.

88 Daeth ein hasesiad o sampl o fesurau perfformiad a systemau data gweithredol y Cyngor i'r casgliad fod trefniadau dilysu data'r Cyngor yn parhau i gael eu cryfhau a chydnabuwyd bod angen sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor.

89 Roedd gan y Cyngor systemau cadarn ar waith i gynhyrchu a sicrhau ansawdd ei ddata dangosydd perfformiad. Fodd bynnag, o ystyried ein bod wedi rhoi barn amodol ar ddau o'r chwe dangosydd a archwiliwyd gennym eleni, gan gynnwys y Dangosydd Strategol Cenedlaethol, roedd angen i'r systemau fod yn gadarnach. Serch hynny, dyma oedd y flwyddyn gyntaf o'r chwe blynedd ddiwethaf i ni roi barn amodol ar unrhyw ddangosyddion gan y Cyngor. Rhoddwyd barn amodol ar y ddau ddangosydd canlynol:

- NSI LSC/002b: nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o boblogaeth, lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol; a
- dangosydd lleol: nifer y cyfranogwyr yng nghynllun prentisiaeth y Cyngor.

90 Er bod proses ddilysu'r NSI wedi'i diffinio'n dda, roedd y broses ar gyfer mesurau lleol yn parhau i gael ei gwella ymhellach. Er enghraifft, roedd gwaith ar y gweill i sicrhau bod diffiniadau clir ar waith a'u bod yn cael eu dilyn.

## Roedd y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol, ond roedd diffygion o safbwynt ei ddefnydd o adnoddau

91 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd yn ddiweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor, ac ar sail hynny, barn yr Archwilydd Penodedig oedd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol ond bod gwendidau mewn perthynas â'i ddefnydd o adnoddau.

92 Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig *Adroddiad Buddiant y Cyhoedd* ar 6 Mawrth 2013 mewn perthynas â chyflog prif swyddog. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod penderfyniad y Pwyllgor Taliadau Uwch Staff (y Pwyllgor) ar 5 Medi 2012 i gymeradwyo'r strwythur cyflog argymelledig oedd yn adroddiad y Prif Weithredwr yn anghyfreithlon.

93 O ganlyniad, roedd swm yng ngholofn gwariant cyfrifon 2012-13, yr oedd yr Archwilydd Penodedig yn ei ystyried yn wariant anghyfreithlon. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad ychwanegol o daliadau i uwch swyddogion yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, canfuwyd taliadau pellach yr ystyriwyd eu bod yn anghyfreithlon gan fod y penderfyniadau hyn wedi'u gwneud gan bersonau heb awdurdod priodol i wneud hynny yn ôl cyfansoddiad y Cyngor a'i Gynllun Dirprwyo. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad 3.

## Mae'r Cyngor yn cyfrannu at amrywiaeth o fentrau cydweithredol ac, yn hanesyddol, mae ei gynllunio ariannol wedi bod yn gadarn. Fodd bynnag, yn 2013-14 methodd â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur

### Methodd y Cyngor â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur ar gyfer 2013-14 gan na chyhoeddodd ei amcanion gwella yn amserol, a dylai sicrhau ei fod yn gwella ei gydymffurfiaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru

94 Ni lwyddodd y Cyngor i gyflawni rhai o'r dyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur ar gyfer 2013-14 gan nad oedd wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella, sef Amcanion Gwella Cyngor Caerffili, ar gyfer y flwyddyn 2013-14, o fewn amserlen resymol.

95 Cyflawnodd y Cyngor waith ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ei gyfres o amcanion gwella yn unol â gofynion y Mesur. Cwblhawyd y gwaith ymgynghori trwy gyfrwng arolygon ar y we ac ar bapur rhwng 22 Ebrill a 24 Mai 2013.

96 Rydym yn cydnabod bod ymdrechion y Cyngor i gynnal ymgynghoriadau ystyrlon er mwyn llywio ei gyfres newydd o amcanion gwella wedi cael effaith ar yr amserlen wrth gyhoeddi ei Gynllun Gwella. Ni chyhoeddwyd y Cynllun Gwella tan 25 Gorffennaf 2013. Yn absenoldeb amgylchiadau eithriadol, byddem yn ei hystyried yn rhesymol disgwyl i gyngor wneud trefniadau i ffurfiol, craffu, cymeradwyo a chyhoeddi ei amcanion gwella erbyn diwedd chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol berthnasol fan bellaf. Yn ein Llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref 2012, nodwyd gennym fod angen i'r Cyngor sicrhau ei fod caniatáu digon o amser yn ei drefniadau i ymgynghori ag ystod briodol o randdeiliaid. Er gwaethaf i'r mater hwn gael ei godi y llynedd a gwneud cynnig ar gyfer gwella hyn, ni wnaeth y Cyngor roi trefniadau ar waith wedyn a oedd yn ei alluogi i ffurfioli, craffu, cymeradwyo a chyhoeddi ei amcanion gwella'n brydlon yn unol â'i ofynion statudol.

97 Cytunodd y Cyngor ar chwe amcan gwella ar gyfer 2013-14, sy'n wahanol i rai'r blynyddoedd cynt, ac mae'r sail resymegol ar gyfer eu dewis i'w weld yn y Cynllun Gwella. Hefyd, mae'r Cynllun Gwella yn ceisio egluro'r gwahaniaeth rhwng ei amcanion gwella a blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor er ei bod yn bryder nad oedd y Cyngor wedi cymeradwyo ei flaenoriaethau'n ffurfiol tan fis Hydref 2013.

98 Roeddem yn teimlo y dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n fwy unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru oherwydd:

- Roedd y Cyngor yn parhau i sefydlu dull sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau gyda chysylltiadau cliriach rhwng camau gweithredu, mesurau a chanlyniadau ond mae angen rhagor o waith er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu'n gyson.
- Gwnaeth y Cyngor rywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynnig ar gyfer gwella'r defnydd o wybodaeth gymharol a gyhoeddir yn ein Llythyr Asesiad Gwella dyddiedig Hydref 2012. Fodd bynnag, mae yna le o hyd i wneud rhagor o ddefnydd o wybodaeth gymharol. Hefyd, yn y gorffennol rydym wedi annog y Cyngor i ddefnyddio cronfa ehangach o dystiolaeth i ddangos cynnydd yn erbyn ei amcanion gwella ond mae mwyafrif y mesurau a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn parhau i fod yn feintiol. Prin yw'r enghreifftiau o dystiolaeth fwy ansoddol

neu ehangach yn cael ei defnyddio i asesu cynnydd.

- Dangosodd ein hadolygiad o sampl o Gynlluniau Gwella Gwasanaeth fod cyfatebiaeth yn gyffredinol ag amcanion gwella perthnasol. Dangosodd Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaeth Plant, er enghraifft, gysylltiadau clir ag amcan gwella a oedd yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, roedd y gyfatebiaeth rhwng yr amcan gwella a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn llai clir gan nad oedd y camau gweithredu a oedd yn y Cynllun yn ddigon manwl yng Nghynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaeth Ieuenctid. Unwaith eto, fel o'r blaen fe nodwyd y maes hwn fel un i'w wella yn ein Llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref 2012, ac rydym wedi gweld bod angen gwneud rhagor o waith o hyd er mwyn sicrhau bod cysylltiadau cadarn rhwng Cynlluniau Gwella Gwasanaethau perthnasol ac amcanion gwella.

- Adeg ein harchwiliad o Gynllun Gwella'r Cygnor, fe welsom fod y Cyngor wrthi'n datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'i amcanion gwella gan ei fod yn cydnabod bod rhai o'r amcanion gwella'n galw am weithio ar draws adrannau. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn bellach ar waith.

99 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd hi'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Mawrth 2012. Mae cyfatebiaeth sylweddol rhwng y gofyniad i gynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Degwch' sy'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu Amcanion Gwella o dan y Mesur. Cyflawnwyd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wrth ddatblygu Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor 2013-17, a oedd yn llywio gwaith y Cyngor wrth iddo ddatblygu amcanion gwella.

100 Hefyd, mae'r Cynllun Gwella'n cynnwys adran sy'n pwysleisio'n gryno y cysylltiadau rhwng ei amcanion cydraddoldeb strategol a'i amcanion gwella. Yn wir, mae'n amlwg bod rhai o amcanion gwella'r Cyngor, megis yr amcan gwella sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, yn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau bregus yn y fwrdeistref sirol.

101 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella i'r Cyngor ym mis Hydref 2012, gwnaethom gynnig ar gyfer gwella yn ymwneud â'r angen am gynnal asesiadau cadarn a chyson o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr holl Gynlluniau Gwella Gwasanaethau. Da o beth yw gallu nodi bod y Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Mae Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor wedi cynnal cyfres o weithdai eleni gyda gwasanaethau i wella eu cynllunio ym maes cydraddoldeb. Adolygir y Cynlluniau Gwella Gwasanaethau gan Swyddogion Cydraddoldeb a Datblygu Cynaliadwy y Cyngor yn ogystal ag Uned Rheoli Perfformiad y Cyngor, a darperir adborth i'r gwasanaeth. Yna, eir i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella gan y gwasanaethau cyn eu gorffen. Mae Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor yn darparu Cynllun Gwella Gwasanaethau i'r awdurdod cyfan hefyd, sy'n amlinellu'r gyfatebiaeth rhwng y Cynlluniau Gwella Gwasanaethau a'r amcanion cydraddoldeb.

102 Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad er budd y cyhoedd yn unol ag adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a oedd yn crybwyll pryderon sylweddol am drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Er nad oes disgwyl i'r Cyngor gyfeirio at hyn yn ei Gynllun Gwella er mwyn bodloni'r Mesur, o ystyried diddordeb y cyhoedd yn y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n syndod na wnaeth y Cyngor hyn, pe bai i wneud dim mwy na rhoi sicrwydd i'w ddinasyddion ynglŷn â'r camau yr oedd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau.

## Mae'r Cyngor yn cyfrannu at nifer fawr o fentrau cydweithredol o gymharu â'r cynghorau eraill a arolygwyd gennym ac, yn gyffredinol, gwelsom fod lle i wella rhai trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli prosiectau, a bod y diffyg gwybodaeth am gostau a manteision yn ei gwneud yn anodd asesu gwerth am arian

103 Yn 2012-13, aethom ati i gynnal arolwg o fentrau cydweithredol ar draws pedwar cyngor yng Ngwent: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen. Nod yr adolygiadau oedd asesu a oedd agwedd y cynghorau at gydweithredu yn gadarn ac yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd ganddynt.

104 Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod Caerffili yn cyfrannu at nifer fawr o fentrau cydweithredol o gymharu â'r cynghorau eraill a arolygwyd gennym ac, yn gyffredinol, gwelsom fod lle i wella rhai trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli prosiectau, a bod y diffyg gwybodaeth am gostau a manteision yn ei gwneud yn anodd asesu gwerth am arian. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r cynghorau a arolygwyd gennym yn cymryd rhan mewn llawer o brosiectau cydweithredol, ac roedd gan Gaerffili y nifer fwyaf ond un o'r prosiectau hyn o gymharu â chynghorau eraill.
- Gellid gwella'r gwaith o gynllunio a rheoli rhai prosiectau drwy nodi'n glir y sail resymegol ar gyfer cydweithredu, enwebu swyddog arweiniol a phennu amserlenni clir ar gyfer y prosiect.
- Yn gyffredinol, mae prosiectau cydweithredol y cynghorau a arolygwyd gennym yn brin o wybodaeth am gostau a manteision cydweithredu, sydd wedi'i gwneud yn anodd asesu gwerth am arian.

## Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gweithredu mewn ffordd ragweithiol i nodi ei ofynion o ran arbedion, ond mae'n rhaid iddo adolygu strategaeth ei gyllideb yn awr er mwyn gwneud yr arbedion sylweddol sydd eu hangen dros y ddwy neu dair blynedd nesaf

105 Oherwydd yr hinsawdd ariannol gyfredol a'r setliad anodd ar gyfer llywodraeth leol yn ddiweddar, mae cynllunio ariannol da yn hollbwysig i gynnal gwytnwch ariannol.

106 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n archwilio iechyd ariannol awdurdodau ar hyn o bryd a'u dull o lunio cyllidebau a gwneud yr arbedion gofynnol er mwyn sicrhau eu bod yn wydn yn ariannol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried a oes gan awdurdodau ddulliau gweithredu cadarn ar waith i reoli'r gostyngiad yn eu cyllidebau er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog ac yn gallu parhau i weithredu yn y

dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a gweithredu cyllidebau 2013-14. Cwblheir yr adolygiad hwn yn gynnar yn 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliannau.

107 Mae'r Cyngor wedi cyfrifo bod angen iddo wneud arbedion o fwy na £28 miliwn erbyn 31 Mawrth 2017. Datblygwyd rhestr hir o arbedion posibl, ac aeth y Cyngor ati i ymgynghori arnynt â chynghorwyr, undebau llafur a'r cyhoedd rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2013. Ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, tynnwyd nifer o'r cynigion gwreiddiol ar gyfer arbedion yn ôl, gan leihau cyfanswm yr arbedion a fydd yn cael eu gwneud yn 2014-15 i £14.7 miliwn gan arwain at fwlch cyllid o fwy na £628,000 ar gyfer 2014-15. Mewn cyfarfod ar 26 Chwefror 2014, cytunodd y Cyngor ar strategaeth gyllidebol i lenwi'r bwlch hwn yn 2014-15. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys cynyddu lefel y Dreth Gyngor 3.9 y cant yn 2014-15.

108 Nodwyd gennym yn Adroddiad Gwella Blynyddol Medi 2013 fod y Cyngor wedi gweithredu mewn ffordd ragweithiol wrth nodi ei ofynion o ran arbedion, gan ei alluogi i gynllunio ymlaen llaw yn bwyllog. Oherwydd lefel yr arbedion sydd eu hangen erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi gorfod ailystyried ei strategaeth gyllidebol ar gyfer 2015-16 a 2016-17. Rhoddir ystyriaeth i arbedion effeithlonrwydd o hyd at dri y cant ym mhob maes gwasanaeth, ond cynhelir adolygiad cynhwysfawr hefyd o wasanaethau amrywiol sy'n cael eu darparu yn ôl disgresiwn. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y strategaeth newydd hon ar gyfer y gyllideb yn arwain at ganran fwy o lawer o ostyngiad yn y meysydd gwasanaeth a ddarperir yn ôl disgresiwn, os nad pob un ohonynt. Mae'r Cyngor yn cydnabod hefyd y bydd angen iddo adolygu ei flaenoriaethau i sicrhau bod modd eu cyflawni o hyd o ystyried y lefelau ariannu llai. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn adolygu ei bolisïau yn ymwneud â'r gweithlu i benderfynu a ydynt yn ddigon hyblyg i ymdopi â lefel yr arbedion sydd eu hangen yn y dyfodol. Cytunodd y Cyngor ar ei strategaeth ariannol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2014.

## Mae trefniadau ar waith bellach i adrodd ar gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, a'u monitro

109 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno trefniadau mwy cadarn ar gyfer adrodd ar gynigion ar gyfer gwella ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, a'u monitro. Bu'r trefniadau hyn yn rhai ad hoc yn y gorffennol. Mae holl adroddiadau drafft yr Archwilydd Cyffredinol yn cael eu trafod bellach gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, ac mae adroddiadau terfynol yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor, gydag adroddiad eglurhaol yn nodi sut y bydd cynnydd yn erbyn cynigion ar gyfer gwella yn cael eu monitro. Mae Bwrdd Gwella Llywodraethu'r Cyngor wedi argymell hefyd y dylid defnyddio'r dull hwn ar gyfer yr holl adroddiadau gan reoleiddwyr.

110 Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â chynigion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwella, ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith. Mae cynigion allweddol ar gyfer gwella yn ymwneud â llywodraethu wedi'u cynnwys yn Rhaglen Gwella Llywodraethu'r Cyngor.

## Yn ystod 2013-14 daeth i'r amlwg bod cyfuniad o wendidau wedi arwain yn anochel at fethiannau llywodraethu yn y Cyngor ac er ei fod yn gwneud cynnydd calonogol i wella ei drefniadau llywodraethu, mae'n rhy fuan i gasglu a yw'r gwelliannau hyn yn gynaliadwy

111 Ym mis Medi 2013, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i gynnal arolygiad arbennig i drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, yn dilyn canfyddiadau'r Archwilydd Penodedig a gyhoeddodd Adroddiad er Budd y Cyhoedd ym mis Mawrth 2013. Nododd yr adolygiad hwn fethiant mewn trefniadau llywodraethu ac annigonolrwydd yn y prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor i bennu cyflogau prif swyddogion. Roedd hefyd yn awyddus i wneud gwaith dilynol ar y problemau llywodraethu ehangach a nodwyd yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2013. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr Arolygiad Arbennig ym mis Ionawr 2014 ac mae ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: http://www.wao.gov.uk

112 Mae canfyddiadau allweddol yr arolygiad arbennig wedi'u crynhoi yn y paragraffau isod.

### Arweiniodd cyflymder y newid a chyfuniad o nifer o wendidau yn anochel at fethiannau llywodraethu

113 Newidiodd yr esiampl a ddangosir ar frig y sefydliad gyda phenodiad y Prif Weithredwr newydd ym mis Medi 2010. Dechreuodd y Cyngor ganolbwyntio mwy ar weithredu gyda mwy o archwaeth risg a phwysau i gyflymu gwaith. Cafwyd pwysau cynyddol i godi proffil ardal Caerffili a hyrwyddo cyflawniadau'r Cyngor. Cafodd y newidiadau a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr newydd effaith ar gapasiti'r Uwch Dîm Rheoli.

114 Ni chafodd trefniadau llywodraethu allweddol eu hadolygu na'u newid i adlewyrchu'r newid yn yr esiampl a ddangosir ar frig y sefydliad a'r cynnydd yng nghyflymdra gweithredu. Ni roddwyd ystyriaeth i wrthdaro buddiannau posibl sy'n gynhenid yn y strwythurau newydd ac nid oedd rolau swyddogion statudol allweddol yn cael digon o broffil na dylanwad.

115 Gwnaeth y Cyngor nifer o benderfyniadau nad oeddynt yn dilyn gweithdrefnau llywodraethu priodol. Hefyd, roedd gwendidau yn y broses o baratoi achosion busnes i gefnogi penderfyniadau ac o ran tryloywder ac ehangder yr adroddiadau a gâi eu paratoi i gefnogi penderfyniadau.

116 Roedd gwendidau'n bresennol yn swyddogaethau herio mewnol y Cyngor drwy gydol y cyfnod hwn. Yn benodol, roedd ei drefniadau rheoli risg yn wan, ni châi'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddefnyddio'n effeithiol, nid oedd y trefniadau craffu yn ddigon effeithiol ac roedd gwendidau yn y trefniadau rheoli perfformiad. Cynyddai hyn y risg na fyddai modd atal na chanfod methiannau llywodraethu.

117 Mae peth ansicrwydd yn parhau ymhlith swyddogion ynglŷn â phryd i ymgynghori ag aelodau a phryd y caiff swyddogion wneud penderfyniadau. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn parhau'n aneglur ynglŷn â phrosesau gwneud penderfyniadau. Er bod hyfforddiant ar y gweill ar ysgrifennu adroddiadau, nid yw'r Cyngor eto wedi ymgorffori newid diwylliannol sy'n sicrhau bod tryloywder, ehangder a chydbwysedd adroddiadau yn cael eu cynnal dros amser.

## Mae'r Cyngor bellach yn gwella ei drefniadau llywodraethu

118 Mae'n amlwg fod y Cyngor yn cydnabod ac yn croesawu'r angen i newid a gwella ei drefniadau llywodraethu. Mae yna benderfyniad cryf ymhlith aelodau a swyddogion i sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn gweithio'n iawn ac i adfer hygrededd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Gwella Llywodraethu (y Bwrdd) ac mae wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu a nodwyd ganddo ar gyfer gwella llywodraethu. Fodd bynnag, mae angen gwelliant pellach ar rai swyddogaethau llywodraethu.

119 Ni chafodd prosesau rheoli risg eu sefydlu'n llwyddiannus ar draws y Cyngor. Nid yw'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn gyfredol nac yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol diweddaraf. Ni wneir defnydd effeithiol o brosesau archwilio mewnol i ddarparu sicrwydd ynglŷn â'r prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Yn ogystal, mae camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella'i swyddogaethau Adnoddau Dynol a rheoli perfformiad eto i'w cyflawni.

120 Ar y cyfan, mae'r aelodau'n ymddiried yn y swyddogion i wneud gwaith y Cyngor ac yn parchu eu gwybodaeth a'u proffesiynoldeb. Er bod aelodau'n teimlo y gallant herio'r swyddogion, cymysg yw'r farn ynglŷn ag effeithiolrwydd pwyllgorau craffu'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn parhau i sylwi ar y ffordd y mae craffu'n gweithio mewn awdurdodau leol eraill, ac i ddysgu gwersi o hynny. Mae'r aelodau'n dod yn fwy heriol a hyderus er nad yw hyn yn digwydd yn gyson eto ym mhob un o'r pwyllgorau.

## Mae'n ansicr a ellir cynnal y trefniadau llywodraethu gwell yn ystod cyfnod o newid pellach

121 Mae penodi cyn Brif Weithredwr y Cyngor yn Brif Weithredwr Dros Dro wedi darparu sicrwydd i aelodau, staff a rhanddeiliaid eraill fod modd adfer y sefydlogrwydd a brofwyd gan y Cyngor am flynyddoedd lawer cyn hynny. Gwnaed newidiadau sydd wedi cryfhau'r Tîm Rheoli Corfforaethol a rolau swyddogion statudol. Gweithredwyd dull diwygiedig o ymdrin ag adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol ac mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro wedi canolbwyntio ar yr angen i gyfathrebu â staff a'r cyhoedd.

122 Cafwyd ffocws iach yn y Cyngor ar barhau i ddarparu gwasanaethau a delio â gwaith fel arfer. Fodd bynnag, mae newidiadau yn y dyfodol yn anochel ar ôl i ymchwiliad yr heddlu gael ei gwblhau. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y gwelliannau llywodraethu a wnaed eisoes neu sydd wedi'u cynllunio yn cael eu cyflawni'n llawn ac yn ddigon cadarn i fod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd ei drefniadau llywodraethu gwell, ni all yr Archwilydd Cyffredinol eto ddod i gasgliad ynglŷn ag a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15

123 Mae ymchwiliadau'r heddlu, achosion llys ac ymchwiliadau disgyblu yn parhau mewn perthynas â'r materion a godwyd yn yr Adroddiadau er Budd y Cyhoedd. Mae'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'u cyhuddo o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Mae ymchwiliadau'r heddlu yn parhau hefyd i'r materion a godwyd yn yr *Adroddiad er Budd y Cyhoedd ar Lwfans Defnyddwyr Ceir Hanfodol a Lwfans Gwyliau Blynyddol Prif Swyddogion* gan yr Archwilydd Penodedig. Mae ymchwiliadau disgyblu mewnol wedi'u gohirio dros dro nes bod ymchwiliadau'r heddlu a'r achosion llys wedi'u cwblhau.

124 Er i'r arolygiad arbennig ddangos bod y Cyngor yn gwella ei drefniadau llywodraethu, mae'n rhy gynnar i weld a yw'r rhain wedi'u sefydlu'n ddigonol eto. Ni fydd modd cynnal asesiad llawn o wytnwch a chynaliadwyedd trefniadau llywodraethu gwell y Cyngor nes bod yr holl ymchwiliadau ac achosion llys cysylltiedig wedi'u cwblhau a bod y Cyngor yn gwbl sefydlog eto.

125 Mae'r Cyngor wrthi'n ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella arfaethedig ar gyfer 2014-15 ac mae wedi paratoi amserlen i gyhoeddi ei amcanion gwella yn gynt. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cyhoeddi Cynllun Corfforaethol 2014 eleni. Gyda'i gilydd byddant yn elfen allweddol o gylch cynllunio corfforaethol blynyddol y Cyngor sy'n ceisio gwella'r gwaith o integreiddio ei wasanaeth a'i gynlluniau ariannol ac adnoddau yn well.

126 Dangosodd Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13 y Cyngor fod perfformiad y Cyngor yn gwella mewn llawer o'i feysydd blaenoriaeth. Dangosodd canlyniadau arolwg Cartrefi'r Cyngor a gwblhawyd ym mis Mehefin 2013 fod canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon â gwasanaethau cyffredinol y Cyngor wedi cynyddu o 78 y cant yn 2011 i 82 y cant yn 2013.

127 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol a chorfforaethol heb eu tebyg a fydd yn herio ei gapasiti a'i drefniadau i gynnal y gwelliant hwn.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gaerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Y Cyngor

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2013-14 yw £427.3 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,390 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd gan y Cyngor gyllideb gyfalaf o £43.3 miliwn hefyd.

Yn 2012-13, £1,100 y flwyddyn oedd treth gyngor Band D. Mae hyn wedi cynyddu 2.5 y cant i £1,128 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae wyth deg wyth y cant o dai Caerffili yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 73 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 50 Llafur
- 20 Plaid Cymru
- 3 Annibynnol

Prif Weithredwr Dros Dro'r Cyngor yw Stuart Rosser. Mae'r tîm rheoli corfforaethol hefyd yn cynnwys:

Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Addysg, Dysgu Gydol Oes a Hamdden, Sandra Aspinall

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro, Nicole Scammell

Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, David Street

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Gaerffili yw:

- Jeff Cuthbert, Caerffili
- Gwyn Price, Islwyn
- Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni

Yr Aelodau Cynulliad Rhanbarthol yw:

- Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
- Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
- Lindsay Whittle, Dwyrain De Cymru
- William Graham, Dwyrain De Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Gaerffili yw:

- Wayne David, Caerffili
- Christopher Evans, Islwyn
- Dai Havard, Merthyr Tudful a Rhymni

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.caerphilly.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Nhŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Harry Andrews
Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Annwyl Gynghorydd Andrews

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol, ond roedd gwendidau o safbwynt defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb  trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2013 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y Datganiad o Gyfrifon yn datgan eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 17 Medi 2013, a chafodd llythyr diweddaru ar faterion nad oeddynt wedi'u datrys ar ddiwrnod y Pwyllgor Archwilio ei gyhoeddi ar 25 Medi 2013.

Mae'r materion allweddol mewn perthynas â'm harchwiliad o'r cyfrifon a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw fel a ganlyn:

## Cyflogau Uwch Swyddogion

Cyhoeddais *Adroddiad er Budd y Cyhoedd* ar 6 Mawrth 2013 ar gyflogau prif swyddogion. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod penderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff (y Pwyllgor) ar 5 Medi 2012 i gymeradwyo'r strwythur cyflogau a nodwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor hwnnw yn anghyfreithlon. Roedd y casgliad hwn yn seiliedig ar nifer o faterion a nodwyd yn yr adroddiad.

O ganlyniad, mae cyfrifon 2012-13 yn cynnwys eitem o wariant a oedd, yn fy marn i, yn wariant anghyfreithlon. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad ychwanegol o daliadau i uwch swyddogion yn ystod y flwyddyn. Yn sgil yr adolygiad hwn, nodwyd rhagor o daliadau a ystyriwyd yn anghyfreithlon gan fod y penderfyniadau hyn wedi'u gwneud gan unigolion heb yr awdurdod priodol i wneud hynny o dan gyfansoddiad a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor.

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y taliadau canlynol yn anghyfreithlon:

- Taliadau a wnaed i uwch swyddogion yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff ar 6 Medi 2012 nes i'r Cyngor ddiddymu'r penderfyniad hwnnw ar 17 Ionawr 2013 (£188,757).
- Taliadau a wnaed i uwch swyddogion yn y cyfnod rhwng 17 Ionawr a 31 Mawrth ac a dalwyd eto yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff (£81,607).
- Taliadau a wnaed i uwch swyddogion i brynu lwfansau penodol (£218,563).

Datgelodd y Cyngor y symiau hyn yn ei gyfrifon ac roedd fy marn archwilio yn tynnu sylw at y datgeliad hwn.

## Gwerthusiad o Anheddau'r Cyngor

Cafodd newidiadau sylweddol eu gwneud i'r datganiad o gyfrifon mewn perthynas â gwerthuso anheddau'r cyngor. Nid oedd gwerthuswyr y Cyngor wedi adolygu addasrwydd y model ar gyfer pennu gwerthusiad at ddibenion cyfrifyddu cyn iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer y datganiadau ariannol drafft. O ganlyniad rwyf wedi argymell bod y Cyngor yn sicrhau ei fod yn defnyddio ei arbenigedd mewnol yn briodol wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, yn enwedig os oes angen defnyddio lefel sylweddol o grebwyll.

## Materion eraill

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, nid wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Rydym wedi dod o hyd i wendidau sylweddol yng ngweithdrefnau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor yn y cyfnod dan sylw. Cyhoeddais Adroddiad er Budd y Cyhoedd ar 6 Mawrth 2013 o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Cyhoeddais yr adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at fethiant mewn trefniadau llywodraethu ac annigonolrwydd yn y prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor i bennu cyflogau prif swyddogion. Yn ôl yr adroddiad:

- 'Roedd y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff yn anghyfreithlon.
- Ceir gwendidau yng ngweithdrefnau llywodraethu'r Cyngor:
  - dylai'r gweithdrefnau ar gyfer cyfarfod cyntaf pwyllgor newydd fod wedi bod yn gryfach;
  - nid oedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ddigon eglur mewn mannau; ac
  - roedd cofnodion y cyfarfod yn annigonol.'

O ganlyniad i'r methiannau hyn, deuthum i'r casgliad bod y Cyngor 'wedi gweithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas â'r broses hon ar gyfer pennu cyflogau'. Gwnes bum argymhelliad yn ymwneud â'r meysydd allweddol canlynol: hysbysebu cyfarfodydd; gwrthdaro buddiannau; gweithdrefnau ar gyfer pwyllgorau newydd; cofnodion cyfarfodydd; ac eglurder a chyflawnder adroddiadau i bwyllgorau. Mae Heddlu Avon a Gwlad yr Haf yn ymchwilio i'r mater ar hyn o bryd.

Yn ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma a lle mae modd gwneud gwelliannau. Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n cynnal Arolygiad Arbennig sy'n canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu a phroses benderfynu'r Cyngor.

Hoffwn dynnu sylw at y meysydd penodol canlynol yn y llythyr hwn:

Mae rhagolygon ariannol y Cyngor yn heriol o hyd ac mae trefniadau cynllunio a monitro ariannol ar waith er mwyn nodi'r bwlch cyllido a hwyluso'r arbedion sydd eu hangen.

Yn gyffredinol, roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio a chyflwyno ceisiadau grant yn 2011-12 yn dda, ond mae ganddo rywfaint o le i wella. Roedd 21% o'r ceisiadau grant ar gyfer 2011-12 a ardystiwyd gan PwC yn amodol ar lythyr cymhwyso (18% yn 2010-11) gan arwain at addasiad net gwerth £34.8 mil i gyfanswm y ceisiadau grant, sef £175.3m. Cyflwynodd y Cyngor 82% o'r ceisiadau grant yn brydlon, sef yr un ganran â'r flwyddyn flaenorol.

Nid wyf wedi cyhoeddi tystysgrif eto yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau oherwydd fy mod wrthi'n ymchwilio i nifer o faterion a godwyd gan y cyhoedd.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn uwch na'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol oherwydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen yn ymwneud â chyflogau uwch swyddogion a gwerthuso asedau.

Yn gywir

**Lynn Pamment (PricewaterhouseCoopers LLP)**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2013

cc: Stuart Rosser, Prif Weithredwr

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynllunio i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei Amcanion Gwella 2013-2014 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.caerffili.gov.uk/

Dyma'r amcanion gwella:

| Amcanion gwella ar gyfer 2012-13 | Amcanion gwella ar gyfer 2013-14 |
|---|---|
| Sicrhau bod dinasyddion Bwrdeistref Sirol Caerffili yn deall pam, pryd a sut i ymgysylltu â ni ac effaith eu hymgysylltu i'n helpu i wella gwasanaethau. | Sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael cefnogaeth i gyrraedd eu llawn botensial. |
| Gwneud Caerffili yn lle diogelach i fyw ynddo. | Gwella cyfleoedd swyddi drwy weithredu Cynllun Pasbort y Cyngor. |
| Cynnal yr ystod o Gyfleoedd Cyflogaeth ar gyfer preswylwyr. | Datblygu Gwasanaeth Ieuenctid effeithiol a hygyrch sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc. |
| Gwella sgiliau Plant a Phobl Ifanc. | Gwella ymwybyddiaeth a defnydd o gyfleusterau hamdden, cymunedol a chwaraeon gan eu gwneud yn fwy hygyrch ac amrywiol. |
| Hyrwyddo Manteision Ffordd o Fyw Iach ac Egnïol. | Buddsoddi yng nghartrefi'r Cyngor i drawsnewid bywyd a chymunedau. |
| Mae oedolion yn y system gofal cymdeithasol yn gallu byw bywydau llawn, egnïol ac annibynnol. | Gwella argaeledd tai preifat a chyhoeddus i leihau nifer y preswylwyr a allai gael eu gwneud yn ddigartref. |
| Bydd asiantaethau yn cydweithio i helpu plant a phobl ifanc sy'n profi anawsterau. | |
| Lleihau ein hôl troed carbon a gwella ein cynaliadwyedd. | |

## Hunanasesiad y Cyngor o’i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o’i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn ei ‘Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13’ ar ei wefan yn http://www.caerphilly.gov.uk

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk